# amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Enw




**DARLLENWCH**
2 Brenhinoedd
4: 8-37

*Mae'r stori hon yn sôn am:*
**Gallu Duw dros farwolaeth.**

## Stori 2 Eliseus - helpu ffrind.

Roedd Eliseus yn teithio o gwmpas y wlad yn gwneud gwaith Duw. O bryd i'w gilydd, byddai'n ymweld â gwraig oedd yn garedig iawn wrtho.  Paratôdd hon ystafell wely arbennig a bwyd da ar ei gyfer. Addawodd Eliseus i'r wraig y byddai Duw yn rhoi iddi fab bach cyn hir, a dyna'n union wnaeth Ef!

Un diwrnod, pan oedd y bachgen yn hŷn, aeth yn sâl iawn – mor sâl nes iddo farw. Daeth ei fam o hyd i Eliseus a daeth ef yn ôl i'r tŷ gyda hi.



Yn gyntaf, gweddïodd Eliseus ar Dduw ac yna anadlodd i gorff y bachgen. Daeth y bachgen yn fyw unwaith eto! Dyma fe'n tisian saith gwaith ac yna agorodd ei lygaid.

Digwyddodd y peth rhyfeddol hwn oherwydd bod Eliseus wedi cael nerth Duw. Dysgodd pob un yn y teulu hwnnw mor nerthol a grymus yw Duw.

**Lliwiwch y llun.**

**Rhowch (✓) wrth ymyl y brawddegau sy'n GYWIR a (✗) wrth ymyl y rhai ANGHYWIR.**

Roedd y wraig yn garedig. ..........

Roedd gan y wraig fab bach. ...........

Aeth tad y bachgen i chwilio am Eliseus. ..........

Nerth Duw ddaeth â'r bachgen nôl yn fyw. ..........